



# ***Adroddiad Bywyd Gwylt Maes Pebyll Brandy Brook***



Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro  
Pembrokeshire Coast National Park

***Paratowyd yr adroddiad hwn gan Atebion Bioamrywiaeth ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro fel rhan o'r prosiect 'Cysylltiadau Naturiol'. Cafodd y prosiect ei ariannu gan Gronfa Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru.***

***Prosiect peilot yw hwn ac felly byddem wrth ein bodd yn derbyn eich adborth am y pecyn gwybodaeth yma. Cewch anfon eich sylwadau i [sarahme@pembrokeshirecoast.org.uk](mailto:sarahme@pembrokeshirecoast.org.uk) neu adael eich sylwadau yn y llyfr ymwelwyr.***

## Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Croeso i Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro!

Mae Sir Benfro yn gorwedd ar begwn de-orllewinol Cymru ac yn cael ei hamgylchynu ar dair ochr gan y môr. Mae Llif y Gwlff yn dylanwadu'n gryf ar amgylcheddau môr a thir Sir Benfro ac mae'r Parc Cenedlaethol yn gartref i rywogaethau sydd i'w canfod mewn ardaloedd deheuol, cynhesach yn ogystal â rhai o'r rhanbarthau gogleddol, oerach.

Mae Sir Benfro yn bwysig yn rhyngwladol am ei chynefinoedd arfordirol, morol a rhostir isel yn ogystal â'r coetir derw hynafol, lled-naturiol yng ngogledd y Parc. Mae'r cynefinoedd hyn yn cynnal rhai o'n rhywogaethau mwyaf eiconig gan gynnwys Brain Coesgoch, Palod a Morloi.

Adlewyrchir gwerth uchel bywyd gwyllt y Parc yn ei ddynodiadau cadwraeth natur sy'n cynnwys:

- 13 Ardal Cadwraeth Arbennig (Mae tair ACA forol yn gorgyffwrdd tua 75% o arfordir y Parc ac yn cyfrif am oddeutu 60% o ardal y glannau).
- 5 Ardal Gwarchodaeth Arbennig.
- 1 Parth Cadwraeth Morol.
- 7 Gwarchodfa Natur Genedlaethol.
- 60 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

Gyda milltiroedd o arfordir ysgithrog, traethau tywodlyd, bryniau a choetiroedd i'w harchwilio, gobeithiwn y bydd y canllaw byr hwn yn gymorth i chi brofi peth o'r bywyd gwyllt gwych sydd gan ein Parc Cenedlaethol i'w gynnig.



## Maes Pebyll Brandy Brook

Mae Maes Pebyll Brandy Brook yn safle dymunol o'r neilltu yn gorwedd yng nghwm coediog serth afon Brandy Brook. Heb gysylltiadau trydan, heb ryngwyd na signal ffôn dyma'r encilfa ddelfrydol oddi wrth fywyd yr 21ain ganrif, ac eto dim ond chwarter awr o waith gyrru oddi wrth brysurdeb yr arfordir ac ehangder dramatig traeth Niwngwl.

Mae gwrychgloddiau traddodiadol Sir Benfro a rhesi o goed aeddfed yn gwahanu pump o feysydd carafanau a phebyll. Mae coetir llydanddail hynafol fel mantell dros y llethrau serth i'r gogledd a'r de, ac mae nant Brandy Brook yn ymdroelli ar hyd y safle gan redeg drwy goetir, dolydd gwlyb a rhesi o helyg, derw a ffawydd ar ei ffordd.

Bu'r gwerysll yn y teulu ers dros 50 mlynedd ac mae'r perchennog presennol, Alys Daye, wedi derbyn Gwobr flynyddol David Bellamy i gydnabod ei hymdrechion i hyrwyddo bywyd gwyllt ar y safle.

### 1 Afon Brandy Brook

Credir bod afon Brandy Brook yn nodi rhan o ffin hanesyddol a elwir yn llinell y Landsger oedd yn nodi'r rhaniad rhwng y tiroedd amaethyddol da yn y de oedd ym meddiant y Normaniaid, oddi wrth y tir uwch tlotach lle roedd y Cymry'n byw.

Mae'r ffrwd redegog hon yn mynd heibio godre Mynydd Rhydaston gan lifo'n gyflym dros ei gwely graean glân drwy faes y pebyll. Cysgodir y ffrwd gan goed am lawer o'i ffordd ond wrth chwilio'r pyllau heulog yn yr afon gwelir ei bod yn llawn o Frithyll.



Rhwng mis Hydref a mis **Brandy Brook** Ionawr mae'r brithyll yn

silio yn y graean yn yr afon, gan greu nythod a elwir yn 'gladdfeydd' mewn rhannau bas cyflym o'r ffrwd. Ymhen amser bydd y silod mân yn dod allan o'r graean gan droi yn leisiaid ac yn olaf yn dod yn frithyll unwaith iddynt gyrraedd blwydd oed.

Mae'r brithyll yn bwyta amrywiaeth o fwydydd, ond mae pryfaid yr afon megis Pryfaid y Cerrig, Gwybed Mai (gyferbyn) a Phryfaid Pric yn arbennig o bwysig. Mae gwahanol rywogaethau yn deor dro ar ôl tro drwy'r



**Pry Afon**

flwyddyn gan ddarparu cyflenwad parhaus o fwyd ar gyfer y pysgod trwy gydol y tymor. Mae'r pysgotwr yn treulio amser yn llunio ei bryfaid pysgota i ddynwared y pryfaid sy'n dod i fod, er mwyn twyllo'r brithyll i frathu ei fachyn.

Mae Brithyll aeddfed yn eithaf tiriogaethol ac yn amddiffyn eu hoff lecynnau. Fel arfer, bydd ganddynt nifer o 'fannau' bwydo lle byddant yn caniatáu i gerrynt yr afon weithredu fel belt cludo i ddanfon bwyd. Byddant yn wynebu i fyny'r afon ac yn dal creaduriaid di-asgwrn-cefn wrth iddynt lithro heibio, ac felly ddefnyddio cyn lleied o egni ag sydd modd.

Gwyddys bod dyfrgwn yn dod i Brandy Brook, er y gallant fod yn ddiarhebol o anodd eu canfod. Yr adeg orau i'w gweld yw'r wawr a'r cyfnos pan fydd pethau'n dawelach a llai o bobl o gwmpas. Wrth gynnwyl arolygon ar ddyfrgwn mae'n haws edrych am eu baw, sylwedd fel tar tywyll, yn aml gydag esgyrn pysgod yn weladwy, ag arogl mysglyd melys anghyffredin. Byddant yn aml yn gadael y baw mewn lleoedd penodol i nodi eu tiriogaethau, er enghraifft ar greigiau mawr amlwg yn yr



Dyfrgi Mike Baker

afon neu o dan bontydd.

Dyfrgwn yw ein bwytawr cigysol mwyaf, gan amlaf yn bwyta llysywod a physgod, ond byddant yn bwyta amrywiaeth o bethau a ddaw ar eu ffordd gan gynnwys llyffantod, llygod dŵr, pryfaid ac adar. Gall tiriogaeth un Dyfrgi fod yn eithaf mawr, gan ymestyn hyd at 25 milltir, ac maent yn defnyddio pob math o gynefinoedd, gan gynnwys ffosydd, gwlyptiroedd, afonydd, pyllau dŵr. Yn Sir Benfro maent hefyd wedi'u cofnodi yn defnyddio'r arfordir.



Bronwen y dŵr

Gellir gweld Bronwennod y Dŵr gyda'u bibiau gwyn yn siglo ar y creigiau ac yn symud i lawr yr afon gan chwyrnellu'n araf. Gellir gweld siglennod llwyd hefyd yn bwydo ar bryfaid o gwmpas glannau'r nant. Mae eu hochr isaf yn felyn llachar sy'n golygu eu bod yn fwy lliwgar nag y mae eu henw yn ei awgrymu.

2

## Dolydd Gwlyb

Yng nghoridor y dyffryn ceir rhannau agored o gorstir lle mae'r glaswellt heb ei dorri a'r tir heb ei ddraenio rhwng y coed helyg. Ddechrau'r haf, mewn pantiau a dolydd gwlyb ar hyd a lled y dyffryn, gwelir pentyrrau o flodau euraidd y Gellesgen Felen yng nghanol dail gwyrdd fel cleddyfau.

Erbyn diwedd haf mae melyn y Gellesgen Felen wedi gwneud lle i flodau gwyn hufennog Brenhines y Weirglodd. Yn rhai rhannau o'r wlad adwaenir y blodau hyn fel 'Carwriaeth a Phriodas' – Dywedir bod



Gellesgen Felen

persawr melys y blodau yn cynrychioli carwriaeth ac arogl tebyg i sebon coch y dail gwasgedig yn cynrychioli priodas. Ar ddiwrnodau cynnes yn yr haf, mae'r gweirgloddiau hyn yn llawn o sŵn pryfaid megis pryfaid hofran a gwenyn.

### 3 Coetir

Mae'r maes pebyll yn gorwedd o fewn dyffryn coediog serth. Mae llawer o'r coetir ar y tir serth yn 'Goetir Lled-naturiol Hynafol'. Rhoddir y diffiniad hwn i safleoedd y credir eu bod wedi bod yn goediog yn ddi-dor ers 1600 o leiaf, ond hyd yn oed yn hirach o bosibl. Mae llawer o'r coetiroedd hyn wedi goroesi oherwydd bod y tir yn rhy serth neu'n rhy wlyb i'w ffermio.

Mae coetiroedd hynafol yn neilltuol o arbennig i fywyd gwyllt oherwydd eu bod yn cynnwys hen rywogaethau coedwig megis mathau gwahanol o Gen, Rhedyn a Mwsogl.

Yn gynnar yn y flwyddyn bydd y coetiroedd yma wedi'u carpedu â blodau'r gwanwyn, yn enwedig Clychau'r Gog.



Clychau'r Gog

Ceir amrywiaeth eang o goed ar y safle yn y coetiroedd ac yn y cloddiau o amgylch y gwrsyll hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys Derwen, Onnen, Castanwydden, Gwernen, Criafolen, Collen, Sycamorwydden, Helygen a llwyni fel y Ddraenen Wen, y Ddraenen Ddu a'r Ysgawen.

Gellir gweld darn bychan o goetir gwlyb yr ochr draw i bont y gefnffyrdd. Mae digonedd o wahanol fathau o redyn yn y rhan hon, gan gynnwys Tafod yr Hydd, Rhedyn Caled, Marchredyn Gwryw a Marchredyn Llydan. Mae Rhedyn y Derw a Marchredyn y Darian Feddal yn tyfu fel epiffytau ar ganghennau coed ac mae hynny'n agor y ffordd iddynt i ddringo i fyny i'r canopi. Gellir gweld arbenigwyr y coetir gwlyb hefyd fel Gold y Gors sy'n felyn llachar a'r Eglyn Cyferbynddail euraidd.



Rhedyn Tafod yr Hydd



Gold y Gors

## Meysydd Carafanau a Phebyll

Mae coed aeddfed a chloddiau gyda gwrychoedd ar derfyn pob maes gwersylla, a rhai ohonynt yn wrychgloddiau traddodiadol Sir Benfro. Yn y gwanwyn, bydd y cloddiau hyn yn drwm o flodau gan gynnwys Fioledau, Briallu a Chlychau'r Gog.

Mae gwrychgloddiau yn fath traddodiadol o derfyn cae yn y rhan hon o'r byd, yn cynnwys clawdd pridd a gwrych ar ei ben. Cyn i ffensiau ddod i gael eu defnyddio'n gyffredin byddai'r gwrychoedd wedi cael eu tocio'n rheolaidd neu eu plygu i gadw gwaelod y gwrych yn ddigon trwchus i gadw da byw i mewn.

Lle mae terfynau caeau wedi aros yr un fath am ganrifoedd gall y gwrychgloddiau hyn fod yn hynafol iawn. Mae gwrychoedd yn cynnig coridorau bychain o gysgod sy'n cysylltu'r coetiroedd ar ddwy ochr y dyffryn ac maent hefyd yn cynnig cysgod, bwyd a chynefin i adar nythu.



Briallu



Ceir llawer o goed aeddfed a rhai hen iawn ar y safle, Mae'r coed hyn yn cael eu gwerthfawrogi'n neilltuol nid yn unig am eu hoedran ond am y cynefin y maent yn ei ddarparu ar gyfer bywyd gwylt arall.

Mae'r coed hyn yn diferu o wahanol fathau o gen a rhedyn sy'n tyfu ar eu canghennau ac yn llawn o

graciau a thyllau sy'n cynnig lle i ystlumod ac adar nythu a chlwydo.

Mae oes coed yn amrywio; gellid ystyried coed Helyg a Gwern yn hen pan fyddant yn 70, ond ifanc iawn fyddai Derwen o'r un oed gan y gallai fyw am dros 300 mlynedd.

Caiff y rhan fwyaf o laswellt y maes pebyll ei dorri er mwyn darparu mynediad ar gyfer gwersylla ond mae ymylon y caeau, lle nad yw'r lawnt-dorrwr yn cyrraedd, yn ddeniadol ac yn llawn o amrywiaeth gan gynnwys rhywogaethau fel Bysedd y Cŵn, Chwerwlys, Fioledau, Briallu, Troed y Cyw Clymog, Manyglog a Llysiau'r Swynwr a'i enw diddorol, i enwi ond ychydig.

5

## Bywyd Adar

Gyda'r fath amrywiaeth eang o gynefinoedd mae gan Brandy Brook amrywiaeth anferth o fywyd adar, a chôr y wig fydd yr unig larwm y bydd arnoch ei angen. Mae cymalau ailadroddus cân y fronfraith i'w clywed ar draws y dyffryn. Nid yw'n syndod bod adar tir amaeth yn gyffredin yma, gan gynnwys Aderyn To, Llwyd y Berth, y Fronfraith, y Fwyalchen a'r Asgell Fraith.

Mae adar y coetir hefyd yn bresennol, megis y Dringwr Bach a Chnocell y Cnau ond efallai y byddant yn fwy anodd i'w gweld. Aderyn bychan brown yw'r Dringwr Bach gyda phig crwm. Fe'i gwelir gan amlaf yn bryso fel llygoden i fyny ac i lawr bonyn a changhennau coeden yn bwydo ar bryfaid.

Gellir clywed y Boncathod yn 'mewian' wrth droelli ar awelon cynnes uwchben y dyffryn yn ogystal â sŵn 'groncian' y Cigfrain wrth ehedeg uwchben.



Y Dringwr Bach



Cigfran



Cnocell y Cnau



Y Fronfraith

6

## Ystlumod

Os yw côr y wig yn drawiadol pan fydd y wawr yn torri, yna yr ystlumod biau'r cyfnos. Gellir eu gweld yn bwydo ar hyd llinellau'r coed, o gwmpas ymylon caeau ac ar draws y gors. Mae saith rhywogaeth o ystlumod wedi eu cofnodi yn yr ardal hon. Gwyddom fod yr Ystlum Trwyn Pedol Mwyaf, yr Ystlum Lleiaf Cyffredin, yr Ystlum Barfog a'r Clebrwr i gyd yn bridio gerllaw. Daethpwyd o hyd I fannau clwydo'r Ystlum Lleiaf Soprano a'r Ystlum Brown Clustiog hefyd ar ffermydd cyfagos (mannau clwydo ystlumod yw lle mae ystlumod yn gorffwys yn dilyn eu bwyd cyntaf yn y cyfnos) Mae Ystlumod y Nos hefyd wedi eu cofnodi uwchben. Mae'r ystlumod hyn yn ehedeg yn rymus a byddant yn aml yn hedfan yn yr awyr agored uwchlaw canopi'r coed.

Mae gan Sir Benfro boblogaeth o'r ystlumod Trwyn Pedol Mwyaf sy'n bwysig yn rhyngwladol. Mae'r rhain ymhlith yr ystlumod mwyaf yn y DU ac yn un o'r ddwy rywogaeth sy'n clwydo gan hongian â'u pennau i waered. Gwyddys bod rhai wedi byw am 30 mlynedd.



Mae'r ystlumod hyn yn brin ym Mhrydain ac wedi'u cyfyngu i Dde Cymru a De-orllewin Lloegr. Maent yn un o'n hystlumod mwyaf, sy'n golygu y gallant fynd i'r afael ag eitemau ysglyfaethus mawr fel chwilen y bwm gyferbyn.

Gellir gweld ystlumod yn hawdd yn y cyfnos ac yng ngolau'r wawr ond er mwyn eu clywed mae synhwyrdd ystlumod yn ddefnyddiol am ei fod yn medru trosi eu galwadau ecoleoli i fod o fewn amrediad clyw dynol.



Mae pryfaid Mai ymhlith hoff fwydydd yr ystlumod trwyn pedol mwyaf

6

## Gloynnod Byw

Gellir gweld rhywogaethau megis y Glas Cyffredin, Llwyd y Ddôl a'r Copr Bach ar hyd y gwrychoedd, ymylon y glaswellt a'r gweirgloddiau.

Mae Gloynnod byw Brith y Coed yn fwy tebygol o gael eu gweld yn y cysgod ar hyd ymyl y coetir.

Tua diwedd yr haf a dechrau'r hydref, bydd blodau'r Eiddew yn darparu ffynhonnell hwyr o neithdar i'r Fantell Goch a'r Iâr Fach Lygadog pan nad oes llawer o ddim arall yn blodeuo.

Bydd llawer o'r rhywogaethau hyn o loynnod byw yn defnyddio'r planhigion yn y weirglodd i ddodwy eu hwyau.

Bydd Llwyd y Ddôl a'r Iâr Fach Fodrwyog yn defnyddio gwair cyffredin megis Troed y Ceiliog a bydd y Glas Cyffredin yn defnyddio Meillion Hopysaidd a Meillion Gwyn.



Y Glas Cyffredin (chwith uchaf), Llwyd y Ddôl (dde uchaf), y Copr Bach (chwith isaf), Brith y Coed (dde isaf).

## Ymhellach Draw

### 1 Mynydd Rhydaston

Gellir cyrraedd Mynydd Rhydaston drwy ddilyn y llwybr troed i fyny drwy goetir y dyffryn. Mae'r coetiroedd yn wych yn y gwanwyn gyda Briallu melyn golau, Fioledau Cyffredin, Llysiau'r Gerwyn ac ystod eang o Glychau'r Gog a Garlleg Gwyllt. Mae Gwyddfifid yn gwau ei ffordd i fyny coed sy'n dew o Fwsogl a Chen.

Mae holl wrychoedd a chloddiau clasurol Sir Benfro o gwmpas y rhan hon yn llawn o flodau, o liw ac o fywyd gwyllt. Hyd yn oed yn y gaeaf mae afalau'r Ddraenen Wen ac aeron yr Ysgaw yn darparu ffrwyth olaf y tymor i'r Fwyalchen, y Fronfraith a'r Asgell Goch.

Yn ystod y gwanwyn a'r haf bydd y coetir yn llawn o adar y coetir; y Gnocell Fraith Fwyaf yn cnocio i mewn i'r coed am bryfaid, galwad arw Sgrech y Coed a chân Telor yr Helyg, Telor yr Eithin, y Telor Penddu, Telor yr Ardd a Thelor y Gwair.

Oherwydd nad oes cymaint yn ymweld â'r rhan hon, mae'n bosibl, gyda gofal, gweld rhai mamaliaid cyffredin a rhai mwy swil, megis Cwningen, Mochyn Daear, Carlwm a'r Wiwer Lwyd.

Mae ysgyfarnogod a Chathod Coed wedi cael eu gweld hefyd yn agos i Fynydd Rhydaston.



Llwybr i Fynydd Rhydaston

### 2 Dudwell a Mynydd Plumstone

Mae Plumstone yn llecyn adnabyddus i wylïo adar, yn bennaf oherwydd y nifer enfawr o Ddrudwy sy'n clwydo yn y coetir conwydd yn y gaeaf. Mae'r helaethrwydd o adar yn denu adar ysglyfaethus a Boncathod yn arbennig, Hebogiaid yr Ieir, Gweilch Glas a Hebogiaid Tramor gydag ambell gofnod o Wyddwalch neu Farcud.

Mae'r llu murmurog o ddrudwy yn adnabyddus am ei reoleidd-dra a'r niferoedd o adar yn chwyrlïo gydag adar ysglyfaethus yn eu croesi i elwa ar y digonedd o adar. Wrth i chi ddisgwyl i'r adar gyrraedd yr arwydd cyntaf yw galwad y Boncathod yn cychwyn hedfan yn barod am y wledd ac wedyn y rhuthr wrth i don ar ôl ton o filoedd o ddrudwy hedfan i mewn.

Mae'r comin ei hun yn gartref i'r Bras Melyn (un o'r ychydig leoedd y gellir eu gweld yn hawdd erbyn hyn yn Sir Benfro) Thelor yr Eithin sydd wedi cytrefu yn y yn ddiweddar. Mae llawer o adar eraill hefyd: Pibydd y Waun, Bras y Gors, Clochdar y Cerrig, Llinos, Ehedydd, Dryw



Y Bras Melyn

a  
sir

a

digon o deloriaid yr haf, yn enwedig y Llwydfron wrth yr ymylon prysglog. Gyda'r fath ddigonedd o adar bach nid yw'n syndod bod y Gog yn magu cywion yma hefyd. Tua diwedd yr haf a dechrau'r hydref bydd yr eithin melyn a'r grug porffor yn blodeuo dros y rhostir.

### 3 Cors a Thraeth Niwawl

Ewch i lawr i gors Niwawl ac efallai y gwelwch ddwy rywogaeth o adar sydd wedi lledaenu o Fôr y Canoldir ac sydd bellach yn eithaf cyffredin yn Sir Benfro, y Crëyr Bach Copog gwyn glân, syber a Thelor Cetti. Yn fwy aml, fodd bynnag, fe welwch y Crëyr Glas, Giach Cyffredin, Pibydd y Mawn, y Gylfinir, Cwtiad Aur a llawer o hwyaid yn enwedig yr Hwyaen Wylt a'r Chwiwell.



Mae cors Niwawl yn tueddu i orlifo bob gaeaf ac mae hyn yn denu llawer o Giach Cyffredin a hwyaid ynghyd â llu o wylanod sydd ar adegau yn cynnwys rhywogaethau mwy prin fel Gwylanod Môr y Canoldir. Y maes pebyll sydd wedi ei orlifo ger y ffordd yw'r lle gorau yn y sir am Bibyddion y Dŵr.

Mae traeth Niwawl yn ehangder trawiadol o dywod, gyda chefnen raean hir. Mae'n lle da i edrych am gregyn a adawyd gan y llanw. Edrychwch am Gregyn Wystrys, Cregyn Daradr, Cregyn Dyfrgi, Cregyn Blacen a Chregyn Cyllell Fôr.



Cragen Cyllell Fôr



Cragen Daradr



Cragen Dyfrgi



Cragen Blacen

Yn y pen deheuol mae traeth helaeth o glogfeini gyda phyllau sy'n ddelfrydol ar gyfer archwilio bywyd gwyllt ar y lan greigiog. Mae'r clogfeini a'r pyllau ar y lan ganol, lle mae pentyrrau o gregyn llong sy'n gwneud i'r clogfeini edrych yn llwydfrown.

Bydd cregyn llong yn aros wedi cau'n dynn pan fyddant yn sych ond wrth i'r môr eu gorchuddio



Pyllau rhwng y creigiau

byddant yn agor ac yn dal eu bwyd â'u traed blewog.

Mae'r pyllau yn y creigiau yn llawn o wymon lliwgar megis Gwymon Danheddog, Chwyn Coral, Gwymon Melys ac Algâu pinc-goch yn crawennu ar y creigiau.

Gellwch godi creigiau'n ofalus i chwilio am Grancod, Corgimychiaid a Llyfrothod, ond cofiwch roi'r creigiau yn ôl yn ofalus lle y cawsoch hwy. Os gwelwch ddiferion fel jeli coch, Bodau Gwynt Gleiniog yw'r rhain, y gellir eu gweld yn bwydo mewn pyllau yn y graig gan ddefnyddio'u tentaclau i bigo eu hysglyfaeth.

4

## Ystâd Southwood

I'r de o bentref Niwgwyl mae Ystâd Southwood sy'n eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac sy'n cynnig cyfle unigryw i archwilio fferm ar yr arfordir. Mae'r llwybrau cylchol yn y fan hon yn cynnig golygfeydd eang o'r arfordir ac maent yn gwau drwy dir fferm sy'n cael ei reoli gyda bywyd gwyllt mewn golwg.

Mae cnwd ceirch yn dal i gael ei dyfu yma i fod o gymorth i blanhigion tir coch nad ydynt yn olygfa gyffredin yn llawer o gefn gwlad erbyn heddiw megis Gold yr Yd a Thrwyn Llo. Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol hefyd wedi ymgymryd â rhaglen o adfer gwrychoedd drwy blannu rhywogaethau o eithin ar ben gwrychgloddiau traddodiadol Sir Benfro.

Yn ogystal â llwybrau troed, mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol hefyd yn cynnal digwyddiadau a diwrnodiau agored ar y fferm – ceir y manylion ar eu gwefan <https://www.nationaltrust.org.uk/southwood-estate>.

5

## O Niwgwyl i Arfordir Solfa

Mae'r llwybr arfordirol o Niwgwyl i Solfa yn cynnig arddangosfa wych o flodau gwyllt arfordirol yn y gwanwyn a'r haf. Yn y gwanwyn mae carpedi o sêr y gwanwyn yn troi'r arfordir yn las. Gellwch hefyd edrych allan am y Glustog Fair binc, Gludlys Arfor Gwyn a Meillion Melyn.



### Brân Goesgoch

chwilod y baw yn hoff fwyd ar gyfer tewychu'r adar bach yn yr hydref i'w cynorthwyo i oroesi misoedd gerwin y gaeaf.

Mae'r rhan hon o'r arfordir hefyd yn lle da i wyllo Brain Coesgoch. Gellir gweld y rhain yn bwydo yma yn y glaswellt byr ar lethrau'r arfordir. Mae'r adar du hyn o deulu'r brain yn sgleinio ac mae eu coesau cochion llachar a'u pigau coch crwm yn ei gwneud yn hawdd eu gwahaniaethu oddi wrth aelodau eraill y teulu. Mae eu pig wedi ei gynllunio'n berffaith i dyrchio am bryfaid. Maent yn neilltuol o hoff o chwilio am forgrug yn y nythfeydd melyn o forgrug yn y glaswelltir. Mae

I ddechrau, mae gan frain coesgoch ifanc big tywyll sy'n troi'n goch wrth i'r adar dyfu. Fe welwch y gwahaniaeth ym Mehefin pan fydd llawer ohonynt mewn grwpiau teuluol. Mae un rhan o dair o boblogaeth brain coesgoch Cymru i'w cael yn Sir Benfro.

Efallai hefyd y cewch gipolwg ar un o'n gloynnod byw mwy prin, y Brith Perlog Bach sy'n bridio ar hyd yr arfordir yn yr ardal hon. Gall fod yn anodd ei wahaniaethu oddi wrth ei berthynas mwy, y Brith Gwyrdd sydd hefyd i'w weld yma. Mae larfa y glöyn byw hwn yn bwydo ar Fioledau Cynnar sy'n tyfu yn y rhannau o'r arfordir sy'n



llawn rhedyn, gan flodeuo yn gynnar cyn i ganopi'r rhedyn gau drostynt.

**Y Brith Perlog Bach**

## Atodiad 1 – Rhestr Rhywogaethau Brandy Brook

Cofnodwyd ym mis Medi 2016

Enw Saesneg Cyffredin	Enw Cymraeg	Enw Gwyddonol
Alder	Gwernen, Gwern	<i>Alnus glutinosa</i>
Alexanders	Dulys, perlllys (m) y meirch	<i>Smyrnium olusatrum</i>
Ash	Onnen, Ynn	<i>Fraxinus excelsior</i>
Blackbird	Mwyalchen, Aderyn Du	<i>Turdus merula</i>
Blackthorn	Draenen Ddu	<i>Prunus spinosa</i>
Broad Buckler Fern	Marchredyn Llydan	<i>Dryopteris dilatata</i>
Buzzard	Boncath, boda, barcud	<i>Buteo buteo</i>
Chaffinch	Asgell Fraith	<i>Fringilla coelebs</i>
Cocksfoot	Troed y Ceiliog	<i>Dactylis glomerata</i>
Common Bent	Maeswellt cyffredin	<i>Agrostis capillaris</i>
Common Bird's-foot-trefoil	Meillion Hopysaidd	<i>Lotus corniculatus</i>
Common Gorse	Eithin Cyffredin	<i>Ulex europaeus</i>
Common Knapweed	Blodau Pengaled	<i>Centaurea nigra</i>
Crested Dog's Tail	Rhonwellt y Ci Cribog	<i>Cynosurus cristatus</i>
Enchanter's-nightshade	Llysiâu'r Swynwr	<i>Circaea lutetiana</i>
Field Wood-rush	Brwyn Blodeuog	<i>Luzula campestris</i>
Fools Watercress	Dyfrforonen	<i>Apium nodiflorum</i>
Foxglove	Bysedd y Cŵn	<i>Digitalis purpurea</i>
Germander Speedwell	Rhwyddlwyn	<i>Veronica chamaedrys</i>
Gold finch	Nico	<i>Carduelis carduelis</i>
Greater Bird's-foot-trefoil	Pys Ceirw	<i>Lotus pedunculatus</i>
Ground-ivy	Llysiâu'r Gerwyn	<i>Glechoma hederacea</i>
Hard Fern	Rhedyn Caled	<i>Blechnum spicant</i>
Hart's-tongue	Rhedyn Tafod yr Hydd	<i>Asplenium scolopendrium</i>
Hawthorn	Draenen Wen	<i>Crataegus monogyna</i>
Hazel	Collen, Cyll	<i>Corylus avellana</i>
Hedge accentor or dunnock	Llwyd y Berth	<i>Prunella modularis</i>
Herb-robert	Perlysiâu Robert	<i>Geranium robertianum</i>
Herring gull	Gwylan y Penwaig	<i>Larus argentatus</i>
Horse Chestnut	Castanwydden	<i>Aesculus hippocastanus</i>
Jointed Rush	Llafrwyn	<i>Juncus articulatus</i>
Linnet	Llinos	<i>Linaria cannabina</i>
Male Fern	Marchredyn Gwryw	<i>Dryopteris filix-mas</i>
Marsh Marigold	Gold y Gors	<i>Caltha palustris</i>
Meadowsweet	Brenhines y Weirglodd	<i>Filipendula ulmaria</i>
Nuthatch	Cnocell y Cnau	<i>Sitta europea</i>
Opposite-leaved Golden-saxifrage	Eglyn Cyferbynddail	<i>Chrysosplenium oppositifolium</i>

Perforate St John's-wort	Eurinllys Trydwll	<i>Hypericum perforatum</i>
Polypody	Rhedyn y Derw	<i>Polypodium [spp]</i>
Primrose	Briallu	<i>Primula vulgaris</i>
Raven	Cigfran	<i>Corvus corax</i>
Red Fescue	Peiswellt coch	<i>Festuca rubra</i>
Robin	Robin Goch	<i>Erithacus rubecula</i>
Rowan	Criafolen	<i>Sorbus aucuparia</i>
Rye-grass	Rhygwellt	<i>Lolium perenne</i>
Scaly Male Fern	Marchredyn Gwryw Cennog	<i>Dryopteris affinis</i>
Slender St John's-wort	Eurinllys Melys	<i>Hypericum pulchrum</i>
Soft Shield Fern	Rhedyn Tarian Meddal	<i>Polystichum setiferum</i>
Soft-rush	Pabwyrren, pabwyr	<i>Juncus effusus</i>
Stonechat	Clochdar y Cerrig	<i>Saxicola rubicola</i>
Swallow	Gwennol	<i>Hirundo rustica</i>
Sweet Vernal-grass	Melynwellt y Gwanwyn	<i>Anthoxanthum odoratum</i>
Sycamore	Sycamorwydden	<i>Acer pseudoplatanus</i>
Tormentil	Tresgl yr Eithin	<i>Potentilla erecta</i>
Treecreeper	Dringwr Bach	<i>Cerethia familiaris</i>
Tufted Hair-grass	Gwygbys	<i>Deschampsia caespitosa</i>
Upright Hedge-parsley	Eilun-berllys Syth	<i>Torilis japonica</i>
Violet	Fioled	<i>Viola sp.</i>
White Clover	Meillion Gwyn	<i>Trifolium repens</i>
Wild Angelica	Llysiâu'r Angel	<i>Angelica sylvestris</i>
Wood Sage	Chwerwlys	<i>Teucrium scorodonia</i>
Yellow Iris	Gellesgen Felen	<i>Iris pseudacorus</i>
Yorkshire Fog	Cawnen Benwen	<i>Holcus lanatus</i>